Taflen 4

# Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Taflen Waith Myfyriwr

### Tasg 1

Ysgrifennwch dri emosiwn neu deimlad sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am y gair 'goroeswr'.

1.............................................................................................................................................

2.............................................................................................................................................

3.............................................................................................................................................

### Tasg 2

Gan weithio mewn parau, edrychwch ar **Daflen 1**, sy'n cynnwys detholiadau o ddwy araith a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin y DU ar 21 Tachwedd 1938. Roedd yr areithiau hyn yn rhan o'r ddadl ynghylch a fyddai Prydain yn derbyn mwy o ffoaduriaid Iddewig o’r Almaen, yn dilyn trais Pogrom mis Tachwedd ar 9-10 Tachwedd 1938 (*Kristallnacht*).

Dylai un ohonoch ddarllen yr araith gyntaf yn **Nhaflen 1** a dylai'r llall ddarllen yr ail araith. Yna trafodwch gyda'ch gilydd yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu.

(Gallwch hefyd gyfeirio at **Daflen 2**, sy'n darparu rhestr termau allweddol.)

Yna, gan weithio mewn parau, atebwch y cwestiynau canlynol.

Pa resymau y mae Mr Philip Noel-Baker yn eu rhoi yn ei araith i gefnogi’r farn bod Pogrom Tachwedd (*Kristallnacht*) wedi’i drefnu gan y gyfundrefn Natsïaidd? Ceisiwch roi o leiaf ddau reswm.

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

jhasw.com
iwitness.usc.edu



Adnodd wedi’i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

# Taflen Waith Myfyriwr

**Tasg 2 (parhad)**

Roedd yn ofynnol i oedolion Iddewig oedd am ffoi rhag erledigaeth y Natsïaid ddarparu gwarantau ariannol i sicrhau fisa Prydeinig (i dalu am eu costau llety a chynnal a chadw). O araith Mr Philip Noel-Baker, a allwch chi nodi pa amgylchiadau a'i gwnaeth yn arbennig o anodd i ffoaduriaid fodloni'r amod hwn yn yr Almaen, 1938?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Beth mae Mr Samuel Hoare yn ei ddweud yn ei araith i egluro pam na fyddai Llywodraeth Prydain yn caniatáu "*mewnfudo ar unrhyw raddfa fawr"*?[1] Ceisiwch roi o leiaf ddau reswm.

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

O araith Mr Samuel Hoare, a allwch chi egluro'r agwedd a ddefnyddiwyd gan Brydain tuag at blant oedd yn ffoi o'r Almaen Natsïaidd? Ceisiwch gynnwys a oedd unrhyw gyfyngiadau ar fewnfudo, unrhyw nawdd neu amodau ariannol, a pha sefydliadau oedd yn gyfrifol am drefnu'r rhaglen (a oedd yn cael ei adnabod yn ddiweddarach fel y Kindertransport).

[1] Hansard, *Racial, Religious and Political Minorities*, *HC Deb 21 November 1938 vol 341 c1468* <https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/1938/nov/21/racial-religious-and-political-minorities#column_1428> [cyrchwyd 21 Mai 2022].

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

# Taflen Waith Myfyriwr

**Tasg 2 (parhad)**

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

A yw'r dystiolaeth yn **Nhaflen 1** yn dangos bod pobl ym Mhrydain wedi ymateb yn gadarnhaol neu’n negyddol i’r argyfwng ffoaduriaid yn 1938 - neu a yw'n datgelu darlun mwy cymhleth am ymateb Prydain? Ceisiwch egluro eich ateb.

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................


© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi’i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

# Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Taflen Waith Myfyriwr

### Tasg 3

Nawr darllenwch y bywgraffiad canlynol ar gyfer Irene Kirstein Watts a gwyliwch y clip fideo, lle mae Irene yn disgrifio rhai o'i phrofiadau o oroesi ac o fod yn ffoadur Kindertransport ym Mhrydain yn ystod ac ar ôl y rhyfel.

Mae clawr ffotograffig y gweithgaredd hon o Irene, gyda'i mam (Margot Kirstein, yn y canol) a'i brawd (Bernot Kirstein, ar y dde) wedi'i dynnu ym Merlin, 1935.

***Bywgraffiad o Irene Kirstein Watts***

*Ganed Irene Kirstein Watts ar 24 Mai 1931 ym Merlin, yr Almaen. Fe'i magwyd mewn teulu Iddewig Uniongred. Cafodd Irene a'i theulu eu herlid gan y Natsïaid yn ystod y cyfnod cyn y rhyfel a chafodd ei thad, Ziegmund Kirstein, ei garcharu yng ngwersyll crynhoi Sachsenhausen. Ym mis Rhagfyr 1938, aeth Irene (8 oed) ar fwrdd y Kindertransport i'r Deyrnas Unedig. Fe fu'n byw yn Lloegr i ddechrau ond pan ddechreuodd y rhyfel, cafodd ei symud i Lanelli, Cymru ac yn ddiweddarach aeth i fyw gyda theulu maeth yn Llundain. Dihangodd rhieni Irene i'r Deyrnas Unedig yn ystod y rhyfel ac yn y pen draw buont yn byw yn Abertawe. Ymfudodd Irene, ei gŵr a phedwar o blant i Ganada ym 1968.*

*Cafodd Irene ei chyfweld ar 28 Mehefin 1998 yn White Rock, British Columbia, Canada.*

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, atebwch y cwestiynau isod.

Beth mae'r dystiolaeth fideo yn ei ddweud wrthych am rai o'r heriau a wynebodd Irene fel rhywun oedd wedi goroesi erledigaeth Natsïaidd, yn byw yng Nghymru a Lloegr? Rhestrwch bum darn o wybodaeth.

1.......................................................................................................................................

2.......................................................................................................................................

3.......................................................................................................................................

4.......................................................................................................................................

5.......................................................................................................................................

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

# Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Taflen Waith Myfyriwr

### Tasg 3 (parhad)

Beth mae Irene yn ei ddweud am effaith y profiadau hyn ar fagu ei phlant ei hun?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Beth mae tystiolaeth Irene yn ei ddweud wrthych am ei phrofiad o oroesi'r Holocost yn gyffredinol? A yw ei thystiolaeth yn cyd-fynd â'r syniadau o oroesiad a ystyriwyd gennych yn Nhasg 1? Os na, pa ddirnadaeth a gawsoch o'i thystiolaeth hi?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

Yn seiliedig ar eich dysgu yn **Nhasg 2** a **Thasg 3**, sut fyddech chi'n gwerthuso ymateb Prydain a phobl Prydain i ffoaduriaid Iddewig cyn ac yn ystod yr Holocost?

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation



Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

# Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 1

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

## Taflen Waith Myfyriwr

### Tasg 4

Ysgrifennwch erthygl papur newydd ar ddadl Tŷ'r Cyffredin y DU ar 21 Tachwedd 1938, yn seiliedig ar yr areithiau a ddarllenwyd gennych yn **Nhaflen 1** (gan gynnwys y troednodiadau). Ceisiwch gasglu'r ystod o safbwyntiau a fynegir ar sut y dylai llywodraeth Prydain ymateb i erledigaeth yr Iddewon gan y Natsïaid, y cyd-destun hanesyddol a chyfyngiadau ymateb llywodraeth y DU.

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

jhasw.com
iwitness.usc.edu

© 2022 USC Shoah Foundation



Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

# Taflen Waith Myfyriwr

**Tasg 4 (parhad)**

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................



© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation



Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC